Gair bach Bethlehem 46

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** – rhif 46 - (Rhifyn wedi'r Pasg 2024)

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Aelodau'r Cwrdd Merched oedd yn arwain yr oedfa Dydd Gweddi'r Byd ym Methlehem ac mae'r oedfa bellach ar YouTube dim ond clicio ar: https://youtu.be/Yza4_rS2P9w. Roedd y gwasanaeth eleni'n eithriadol o berthnasol gan iddo gael ei lunio gan Ferched Cristnogol Palesteina (a hynny ddwy flynedd yn ôl) gan agor gyda'r geiriau *"Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad".*

Yn y rhifyn hwn, mae rhagor o luniau o'r rhai fu'n cymryd rhan ac mae'n diolch am drefnu'r gwasanaeth i Eirlys Davies, Radur. Ond fel gwelwch chi ar y chwith, roedd yna reswm ychwanegol dros fynd i'r festri wedi'r oedfa – i ddathlu pen-blwydd Eirlys. Roedd hyn ychydig ddyddiau'n gynnar mae'n wir. Ond gan mai dim ond unwaith pob pedair blynedd y gwelir y dyddiad priodol ar y calendr, yna, pa ots am ddyddiad? Marian Ifans oedd y cogydd, a chyflwynwyd y tusw blodau i Eirlys gan un arall oedd ar drothwy ei ben-blwydd yntau, Huw Llywelyn Davies.

Prin fod angen egluro mai dyma aelodau'r Ysgol Sul yn yr oedfa Gŵyl Ddewi.
Gweler tudalen 8

Yn y rhifyn hwn...

GWEITHGAREDDAU
NEWYDDION
LLUNIAU O'R OEDFAON
ERTHYGLAU

Suliau Bethlehem – hyd ddiwedd Mai

Ebrill:
7fed Ebrill – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
14eg Ebrill – Oedfa dan ofal Arwel Ellis Owen
21ain Ebrill – Oedfa Ardal dan ofal Wyn Jones
28ain Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig
Robert Owen Griffiths

Mai:
5ed Mai – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12fed Mai – Oedfa Cymorth Cristnogol
19eg Mai – Oedfa dan ofal y Parchedig
Jeff Williams
26ain Mai – Oedfa dan ofal Eirian Dafydd

Gair gan Delwyn

Os nad nawr, pryd?

Dwi'n siŵr bo chi'n gyfarwydd â'r geiriau uchod, ond ydych chi'n gwybod i bwy ma' nhw'n perthyn? Wel, i **Hillel yr Hynaf**, un o athrawon Iddewaidd pwysicaf ei ddydd, mor bwysig nes bod cerflun ohono'n Jeriwsalem. Ym Mabylon y cafodd ei eni, ond fe symudodd ei deulu i Jeriwsalem, a hynny yn ystod teyrnasiad Awgwstws a'r brenin Herod. Oedd, roedd yn Jeriwsalem adeg yr Iesu. Roedd yn athro poblogaidd, uchel ei barch, ac roedd ganddo nid dwsin ond cant a thrigain o ddisgyblion!

Mae sawl stori amdano, ond hon yw'r enwocaf a mwya' cyfarwydd. Daeth gŵr dieithr ato un dydd, un nad oedd yn perthyn i'r ffydd Iddewaidd, a chynnig y byddai'n fodlon troi'n Iddew pe bai Hillel yn gallu esbonio'r Torah (y gyfraith Iddewig) iddo tra roedd e', y gŵr dieithr, yn sefyll ar un goes! Wel, tasg amhosib, medde'r disgyblion, gan fod y Torah'n cynnwys llyfr Lefeticws, a oedd, a sydd yn cynnwys cannoedd ar gannoedd o reolau a chyfreithiau, ond dyma ddywedodd Hillel:- "Paid â gwneud i eraill yr hyn rwyt ti ddim am i eraill wneud i ti. Dyna'r gyfraith yn ei chyfanrwydd." Geiriau cyfarwydd i bob Iddew, ac i bob Cristion, a geiriau sy'n arwain at eiriau'r Iesu:- "Câr dy gymydog fel ti dy hun". A nid yr Iddew a'r Cristion yn unig, ond y Mwslim hefyd:- " Y cymydog sydd orau gan Allah yw'r un sydd orau i'w gymydog".

Ond yn ôl at Hillel, roedd ganddo eiriau eraill, geiriau llai cyfarwydd, ond yr un mor rymus:- "Mae pwy bynnag sy'n dinistrio un bywyd fel pe bai'n dinistrio'r byd i gyd, ac mae pwy bynnag sy'n achub un bywyd fel pe bai'n achub y byd i gyd."

Os oes "amser i bob peth dan y nefoedd" tybed nad yw hi'n amser i wrando? Arweinwyr Hamas, Hezbollah, Mr Netenyahu, onid yw hi'n amser gwrando ar eiriau eich athrawon yn awr? Ac os nad nawr, pryd?

Delwyn Sion

NEWYDDION BETHLEHEM

Croeso nôl!

Mae'r ddwy chwaer o Waelod-y-garth, Jean Blyth a Mary Edwards, yn ôl yn ddiogel ar ôl cyfnod yn Awstralia. Fe aethon nhw draw yng nghwmni Catherine, merch Jean, sydd bellach yno mewn swydd nyrsio.

Cydymdeimlo

Rydym, fel cyd-aelodau, yn anfon ein cofion at Cerith Davies, Danescourt, a'r teulu. Mae Cerith newydd golli ei frawd hŷn, Alun, yng Nghwm Cynon.

Bore Coffi yn y Festri

Ar Fawrth 21ain, cynhaliwyd y cyntaf o gyfres o foreau coffi yn y Festri. Y bwriad ydy eu cynnal yn fisol ar drydydd Bore Iau o bob mis, i unrhyw sydd awydd troi fewn i fwynhau cwmnïaeth a dishgled. Isod fe welwch gip ar y rhai fynychodd y cyfarfod cyntaf.

Môr cariad Marie Curie

Rhys Powys

Mi derbyniais bwt o lythyr yn ddiweddar a hwnnw gan Katy Jackson, swyddog codi arian gydag elusen Marie Curie. Mae hi'n diolch yn gynnes am y rhodd o **£640** a gyfrannwyd gan aelodau Bethlehem yn dilyn perfformiad "Y Gwynfydau" nôl ym mis Tachwedd y llynedd.

Fel teulu, roedden ni'n ddyledus dros ben i nyrsys Marie Curie am eu gofal a'u cyngor pan oedd Dad yn gwaelu - ac yn awr rydyn ni'n ddiolchgar i Eilir, y cantorion a phawb gyfrannodd i'r elusen yn dilyn y perfformiad.

I ddyfynnu o "Hiraeth ym mhob deigryn" gan Delwyn Siôn -

"Ond mwy na dagrau, mwy na'r dagrau,
Yw y cariad sy'n cofláu.
Cariad pur sy'n cynnal ffydd bydd yn parhau."

Y Dr Ian Hughes, Pentre-poeth, fu'n arwain yr Oedfa ar Fore Gwener y Groglith. Mae'r 'linc' i'r recordiad o'r oedfa ar dudalen 10 o'r rhifyn hwn.



Anfonwn ein cofion cynhesaf at y canlynol sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar:

- ***Ken Evans, Pentyrch.*** Mae Ken wedi bod yn yr ysbyty ers rhai misoedd bellach.
- ***Delyth Evans, Y Barri.*** Mae Delyth, hithau, heb fod yn ein plith ers tro, oherwydd gwaeledd.

Gair o Ddiolch

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i deulu Bethlehem am yr holl gyfarchion a charedigrwydd a ddangoswyd i mi tra'n dathlu fy mhen-blwydd. Gwerthfawrogaf yn gyson gyfeillgarwch a chwmni teulu annwyl Bethlehem.

Llawer o ddiolch i chi i gyd. ***Eirlys Davies, Radur***

Mae'r Ysgol Sul yn hwyl!
Gweithgaredd pur wahanol i hen ddyddiau dysgu'r "Rhodd Mam"!

Rhagor o Newyddion

Eisteddfod cyn diwedd y mis!



"Beth am gynnal eisteddfod fach y capel?" oedd cwestiwn un o'r rhieni ar ôl Ysgol Sul ychydig wythnose nôl.

"W, ie! Dyna syniad da", medde un arall. A dyna oedd y dechre. Mae Leah, Lisa, Rhian a fi wedi cael sawl sgwrs ar Zoom ers hynny ac y mae'r rhestr testunau yn barod. *(gweler y poster ar y dde)*

Rhys Powys fydd arweinydd y noson a'r beirniaid, **Gaenor Mai Jones** a **Rhisiart Arwel**, a **Delyth Evans** a **Rhian Harding** yw'r cyfeilyddion.

Blant, ieuenctid ac oedolion: dewch i gystadlu! Paratowch eich unawdau lleisiol ac offerynnol a'ch darnau llefaru a dewch a'ch copïau gyda chi ar gyfer y cyfeilyddion a'r beirniaid.

A chwi, deuluoedd: dyma'ch cyfle chi i ddisgleirio wrth berfformio eitem o'ch dewis chi. Sylwch bod y gystadleuaeth canu emyn yn agored i unigolion neu grwpiau.

Mae pob peth yn hunanddewisiad ac y mae croeso i chi gofrestru o flaen llaw ond does dim rhaid.

Fel y gwelwch chi o'r restr testunau, mi fydd cystadlaethau eraill yn cael eu gosod ar y noson yn ogystal. Dewch i gystadlu! Dewch i gefnogi'r cystadleuwyr – yn blant, ieuenctid ac oedolion. A dewch i fwynhau noson hwyliog yng nghwmni ein gilydd **nos Sul 28 Ebrill am 5 o'r gloch**.

Mae croeso i chi gysylltu 'da fi os am fwy o fanylion.

Heulwen / heulwen@btinternet.com / 07779 360614

Gair gan yr Ysgrifennydd Rhodri-Gwynn Jones

O'r Cwrdd Diaconiaid

Cyfarfu Diaconiaid Bethlehem, Gwaelod-y-garth, ar Sul y 25ain o Chwefror 2024, a chafwyd trafodaeth fel a ganlyn:-

1. **Materion o'r Cofnodion blaenorol**: 'Roedd y canlynol eisoes yn bethau a nodwyd i'w cwblhau:-
   - Dodrefn hygyrch ar gyfer y Festri
   - System oleuadau hwylus ar gyfer y Capel
   - Cyhoeddi hanes y Capel
   - Cwrdd a cefnogwyr "Plan International"
   - Canllaw o gyntedd y Capel i'r Galeri
   - Canllaw wrth ddrws y Festri
   - Atgyweiriadau i'r llwybrau a phrif fynedfa allanol i'r Capel (mewn llaw pan fydd y tywydd wedi gwella)
   - Cwblhau'r canllaw yn y Galeri (gyferbyn a'r grisiau sy'n arwain at y seddau)
   - Arolwg cyflawn o'r Capel a'r Festri yn unol a'r "Heulwen Dan Gwmwl" (Creu eglwys Dementia-gyfeillgar")
   - Gwahodd yr aelodaeth i ystyried ychwanegu at rengoedd y Diaconiaid.
   - Cynnal cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr

2. **Adroddiad yr Arweinydd:**
   - Mae'r cynllun Ysgol Sul i blant Ysgol Uwchradd wedi ei sefydlu ar sail un cyfarfod y mis fel arbrawf. Awgrymwyd y gellid holi a fyddai diddordeb gan yr ieuenctid i gystadlu ym "Mhrosiect Denman 2024" Undeb yr Annibynwyr, gyda'r her o greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema "Ein Hysgol Sul; Dysgu am Iesu"?
   - Mae trefnu Suliau 2024 bellach yng ngofal Rachel a Paul Garside, gyda Delwyn yn rhoi cymorth yn ôl y gofyn.
   - Dathlu'r 150:
   - Nodwyd bod y ddarlith gan yr Athro Prys Morgan ar ei "Atgofion o Bethlehem a Salem, Gwaelod-y-garth" ar y 26ain o Hydref 2023, wedi cael derbyniad brwd. 'Roedd y ddarlith wedi ei recordio ar y noson; gweler https://bethlehem.cymru/index.php?page=cadwgan ac 'roedd crynodeb ohoni wedi ymddangos yn y cylchgrawn "O'r Pedwar Gwynt" rhifyn y gaeaf 2023.
   - Nodwyd bod yr Ysgrifennydd wedi trafod y posibilrwydd o gyhoeddi yr ymchwil yr oedd Peter Wynn Thomas wedi ei wneud ar hanes y Capel. Hefyd 'roedd yn awyddus i dderbyn hanesion yr aelodaeth am eu hymwneud a Bethlehem dros y degawdau diweddaraf fel clo i'r gwaith hwnnw.
   - Adroddwyd bod cais wedi dod o Gapel Minny Street, Caerdydd, yn gofyn am barodrwydd Côr y Capel i gyflwyno'r "Gwynfydau" yno ar nos Sul y 30ain o Fehefin 2024.{Mae'r cais bellach wedi ei dderbyn.]

3. **Cristnogaeth Ymarferol:**
   - Nodwyd fod darpariaeth "Te yn y Tabernacl" yn parhau a chydnabuwyd rhan Ann ac Ian Hughes fel cydlynwyr ar ein rhan.
   - Nodwyd, gyda diolch, bod cyfraniadau i'r Banc Bwyd yn parhau ar Sul cyntaf y mis.
   - 'Roedd yn fwriad i gynnal "Bore Coffi a Chlonc" yn y Festri ar y trydydd bore Iau yn y mis, o fis Mawrth ymlaen, rhwng e.e. 11:00 a.m. a 12:30 canol dydd. (Unrhyw elw i'w gyfeirio i Gronfa Alzheimer Cymru.) [Cynhaliwyd y cyntaf ar fore Iau yr 21ain o Fawrth.]
   - Mae'n fwriad cynnal dau weithgarwch cyn yr haf, ynghyd â Swper Haf.
   - Nodwyd nad oedd unrhyw weithgaredd wedi ei gynnal i hybu Apêl Undeb yr Annibynwyr "Ffynhonnau Byw". Cytunwyd y byddid yn cyfrannu £1500 o gronfa'r Capel yn rhodd i'r Apêl.

- Cydnabuwyd Nerys Williams am ei gofal unwaith yn rhagor am Anrhegion Nadolig 2023 i aelodau hŷn yr eglwys.

6. Cyswllt aelodau a chyhoeddi

"Gair bach Bethlehem":

Cydnabuwyd gyda diolch waith Ifan Roberts yn sicrhau cyhoeddi "Gair bach Bethlehem" (Rhifynnau 44 a 45). Byddai'r rhifyn nesaf yn cael ei gyhoeddi o gwmpas cyfnod y Pasg.

7. Adeiladau a Chyfarpar:

Mae'r tyfiant o amgylch y capel bellach wedi ei glirio. Cost y gwaith oedd £800.

8. Adroddiad y Trysorydd:

- Nododd y Trysorydd bod ad-daliad treth incwm wedi ei dderbyn o £11k am y ddwy flynedd ddiwethaf (21/22 a 22/23).
- 'Roedd peth ymchwil wedi ei wneud i ganfod a fyddai budd yn deillio o drefnu cyfrif banc / buddsoddi gyda darparwr amgen.
- 'Roedd angen ystyriaeth pellach a manwl ar ymwneud â materion ariannol y Capel oherwydd newidiadau cyson yn y gyfundrefn fancio bresennol e.e. defnydd o sieciau / dau lofnod / bancio digidol.

9. Iechyd a Diogelwch / Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus:

- Nodwyd bod y llawlyfr "Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus" ar wefan y Capel. [Gweler y linc yma: https://panel.cymru/images/Llawlyfr_Diogelu_Grwpiau_Bregus_2022_cym_112_tud.pdf]
- Nodwyd y byddai Mair John a'r Ysgrifennydd yn mynych cwrs "dros Zoom" ar gyfer "cydlynwyr" oedd wedi ei drefnu gan y Panel Diogelwch ar y 29ain o Chwefror 2024.
- Nododd DS ei fod yn trefnu oedfa benodol arall yn fuan a fyddai'n canolbwyntio ar anghenion y rhai sy'n byw gyda'r cyflwr dementia a'u teuluoedd / gofalwyr.

10. Y Ddiaconiaeth:

- Derbyniwyd ymddiswyddiad Peter Wynn Thomas o'i ddyletswyddau fel Diacon yn y Capel. Mynegwyd diolch iddo ar ran y Diaconiaid am ei wasanaeth dros gyfnod helaeth o amser, ond da deall y bydd yn parhau fel rhan o'r tîm o organyddion ym Methlehem.
- Cytunwyd y dylid gwahodd yr aelodaeth i ystyried sefyllfa Diaconiaid Bethlehem yn fuan gyda'r argymhelliad o du'r Diaconiaid y dylid ychwanegu at y rhengoedd.

11. Unrhyw fater arall:

a) **Noddi gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024:**
Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd eleni, cytunwyd i gynnig £250 fel gwobr yn un o'r cystadlaethau.

b) **Eisteddfod y Capel**
Mae bwriad gan rhai aelodau i drefnu Eisteddfod y Capel ar bnawn Sul yr 28ain o Ebrill, gyda Swper i ddilyn. Gellid defnyddio'r achlysur i gefnogi'n ariannol yr Eisteddfod Genedlaethol. Cefnogwyd y fenter.

c) **Apêl Gasa**
Ar anogaeth Joy Glyn cytunwyd i holi Cymorth Cristnogol am y modd mwyaf effeithiol o gynnig cymorth i drigolion Gasa, gan gyfrannu yr union swm ariannol a roddwyd i Gronfa Wcrain.

13. Dyddiadau y cyfarfodydd rheolaidd nesaf:

Awgrymwyd Pnawn Sul y 9fed o Fehefin 2024

I'ch atgoffa eto fod yna gyfoeth o wybodaeth am weithgareddau Bethlehem ar ein gwefan (diolch i Wyn Jones) :
Bethlehem - Croeso i Fethlehem
gan gynnwys
yr oedfaon fan hyn:
Bethlehem - Gwasanaethau 2023

I'ch atgoffa

Oes 'na Wirfoddolwyr?

Rhodri-Gwynn Jones

Isod fe atgynhyrchir rhan olaf erthygl a ymddangosodd ar dudalen Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn rhifyn mis Mawrth 2024 o "Tafod Elai". Tybed pwy ohonoch fydd y cyntaf i ymateb i'r her ddiweddaraf yma?

"*Mae'r Athro Peter Wynn Thomas a'i fryd ar gyhoeddi llyfr yn dilyn hanes y Capel, ac wedi bod wrthi yn ddiwyd yn casglu deunydd priodol er sicrhau hynny. Cafwyd peth o'r hanes ganddo mewn oedfa ddathlu 140 mlwydd oed y Capel ym mis Tachwedd 2012.*

Mewn sgwrs ddiweddar a mi 'roedd yn sôn am ei ddyhead i lunio'r bennod neu ddwy olaf ar sail profiadau personol yr aelodau presennol sydd yno.

Mae 'na enghreifftiau o hynny eisoes ar gael oherwydd i rai oedfaon (eto, yn enwedig yn ystod y cyfnod Clo) gynnwys pytiau o gyflwyniadau gan gyn-aelodau, neu rai gyda chyswllt teuluol a'r Capel.

Bydd yr aelod hynaf ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, Mrs Ann Williams, yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ym mis Gorffennaf. 'Roedd ei diweddar ŵr, Glyndwr, yn organydd ym Methlehem am flynyddoedd lawer. Da o beth fyddai cynnwys peth o'u hanesion hwy ill dau mewn print.

Dyna felly, yn gam neu'n gymwys, lawnsio prosiect diweddaraf Bethlehem, Gwaelod-y-garth – ewch ati i ysgrifennu; cydiwch yn eich ffôn lôn, tynnwch hunlun, ac adroddwch fymryn o'ch hanes a'ch ymwneud â Bethlehem.

A phan fydd haneswyr y dyfodol yn hel hanes y lle ymhen hanner canrif eto, pan fydd dathliadau 200 mlwydd oed yr adeilad presennol yn llenwi tudalennau'r "Tafod" (a hwnnw erbyn hynny yn 88 mlwydd oed), bydd ein cyfraniadau ninnau yn gyfleus wrth law, yn brawf o'r bwrlwm a fu, cyn ac wedi troad canrif a milflwydd newydd.

Oes 'na wirfoddolwyr?"

****



CYFROL XXVII. RHIF 2. HAF, 1948.

Y

LLENOR

CYLCHGRAWN CHWARTEROL

DAN NAWDD CYMDEITHASAU CYMRAEG Y COLEGAU CENEDLAETHOL

DAN OLYGIAETH

W. J. GRUFFYDD

a T. J. MORGAN

CYNNWYS

BARDDONIAETH - - - - - - 53

RHIN Y BYWYD (*R. Meirion Roberts*).

Y GOEDEN UNIG (*Gwilym Morris*).

TOMEN Y CHWAREL (*O. M. Lloyd*).

Cerdd amserol i adeg Y Pasg gan un o gyn-weinidogion Bethlehem, Y diweddar Barchedig Gwilym Morris



Y GOEDEN UNIG.

CLODFORIR Cedrwydd Libanus
Y Sycamor a'r Palm ;
Ond distaw'r byd amdanaf i
Mewn emyn ac mewn salm.

Ni ŵyr pa le y tyfaf,
Na gwybod f'enw chwaith,
Na holi ai gosgeiddig wyf
Ai corrach llwm y paith.

'Rwy'n dlawd a dirmygedig
Ymhlith y coed i gyd,
Cans holltwyd o'm hystlysau
Ddeubren unica'r byd.

Gwaelodygarth. GWILYM MORRIS.

Mawrth 3, 2024

Oedfa Gŵyl Ddewi







Dyma nhw, y rhai fu'n cymryd rhan yn y dathliad Gŵyl Ddewi. Diolch unwaith eto i Heulwen a'i chyd-athrawon am eu holl waith gydag aelodau'r Ysgol Sul a'r ieuenctid.

Oedfa'r Cwrdd Merched

Dydd Gweddi'r Byd

(gweddill y lluniau ar y dudalen nesaf)









Peidiwch byth â cholli'r cyfle i fynd drwodd i'r Festri am ddishgled/paned. Gallech golli parti syrpreis!

Cyffes un o feibion Y Mans *Arwel Ellis Owen*

Yn y croesfeinciau

Sul y Blodau a gwasanaeth arbennig iawn ym Bethlehem. Gwrando ar Delyth wrth yr organ yn ystod y casgliad, a sylwi bod croesfeinciau y Tŷ Cwrdd, naill ochr i'r set fawr, wedi eu haberthu i greu lle i'r organ ac i'r grisiau sydd yn arwain i'r festri.

"Dyma drist "meddwn wrth fy hun, gan hel meddyliau am y blynyddoedd a dreuliais fel "crossbencher" yn y ddau gapel y bu fy nhad yn weinidog. Bryd hynny, nôl ym mhumdegau a chwedegau y ganrif ddiwethaf, roedd gofyn talu rhent am y "pew" yn y Capel. Rhes flaen y croesfeinciau, bob tro. A hynny er mwyn i fi ddweud wrth fy nhad pwy oedd ddim yn Yr Oedfa, pan oedd o yn pregethu i ffwrdd.

'Snitchio' oedd fy nghyfrifoldeb i ac yn lle gorfod troi pen i weld pwy oedd ble yn y Capel, roedd cael set orau yr adeilad, yn wynebu pawb, yn gwneud fy ngorchwyl gudd wythnosol gymaint yn haws.

Cofiwch chi roedd na bris i'w dalu am eistedd mewn lle mor amlwg. Dim fferins. Dim darllen comics, oedd yn bosib pan fydda un yn chwythu yr organ tu ôl i'r llenni sidan. Dim syrthio i gysgu, oedd eto yn bosib petai yr organydd mewn hwyliau da.

A dim chwerthin! A hwn oedd y sialens fwyaf, oherwydd, pan fydda rhai pregethwyr yn sôn am "coconut" yn lle pen, neu yn sgwennu "nefoedd ac uffern" ar y marmor tu cefn iddo yn y pulpud, gan chwythu y modfeddi o lwch i gyfeiriad gwraig y tŷ capel, byddai cadw wyneb syth yn mynd yn drech na'r Calfin gorau. Byddai Mam yn eistedd rhwng Wynford a fi, a phan fydde pethe yn mynd o chwith, a'r " giggles" yn dechrau, byddai mam yn suddo ewinedd y ddwy law, yn mhen-glin y ddau ohonom. Mae y creithiau yno o hyd. Sori Delyth, ond dyna oedd yn mynd trwy'r cof wrth i chi berfformio wrth yr organ fore Sul.

Ail-wylio a gwrando!

Cofiwch fod yna gyfoeth o wybodaeth am weithgareddau Bethlehem ar ein gwefan – dyma'r ddolen gyswllt i chi glicio arni:

Bethlehem - Croeso i Fethlehem

Mae'r oedfaon unigol, sydd ar fideo, i gyd ar gael drwy glicio fan hyn:

Bethlehem - Gwasanaethau 2023

Dyma'r dolenni i rai o'r oedfaon diweddar:

Delwyn Sion, 4 Chwefror: https://youtu.be/ckQmEgo3UAY
Y Parchedig Robin Samuel, 11 Chwefror 11: https://youtu.be/V2BllDajm-c
Sul Gweddi, 18 Chwefror, dan ofal y Cwrdd Merched: https://youtu.be/Yza4_rS2P9w
Emlyn Davies, 25 Chwefror: https://youtu.be/26msHo0CfHQ
Bore Gwener, Dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth: https://youtu.be/EPWE00s8U7w
Yr Ysgol Sul, 3 Mawrth: https://youtu.be/ODxNHQPA2jw
Dr Ian Hughes, 29 Mawrth, Gwener y Groglith: https://youtu.be/RyiGouqNYyQ

Sul y Blodau

Oedfa Aelodau Gorllewin Caerdydd

Marged Cartwright

Fe glywch chi bobl ar y cyfryngau heddiw, fel y byddwn ninnau hefyd, yn aml yn cyfeirio at rywun sy'n barod i helpu mewn sefyllfa annisgwyl fel Samariad Trugarog. Mae fel petai ryw fath o gydnabyddiaeth fyd-eang i ddameg Iesu. Ond mae yna lawer mwy na hynny i'r ddameg hon.

Os edrychwch chi ar Luc 10: 25 - 37, edrychwch ar union eiriad cwestiwn y cyfreithiwr:

"Ond pwy ydy fy nghymydog i?"

Wedyn sylwch ar y cwestiwn a ofynnodd Iesu:

"Yn dy farn di, pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn wnaeth y lladron ymosod arno?"

Mewn gwirionedd, dydy Iesu ddim yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd.

Yr hyn roedd y Cyfreithiwr eisiau gwybod oedd - pwy yn union oedd y bobl roedd yntau'n gymydog iddyn nhw, a thrwy hynny, pwy oedd **ddim** yn gymydog iddo!

Ond mae Iesu'n gwrthod hyd yn oed ystyried y cwestiwn hwnnw. Mae Iesu am i'r Cyfreithiwr ddeall beth yw ystyr bod yn gymydog i bawb a phob un, yn hytrach na gwahaniaethu o blaid un grŵp neu'r llall.

Pe bai'r Iesu wedi rhoi'r ateb uniongred, yr ateb roedd y cyfreithiwr yn ei ddisgwyl, sef mai dim ond cyd-Iddewon oedd ei 'gymydog', gallai ddangos wedyn ei fod yn cadw'r gorchymyn yn fanwl.

A phe bai wedi rhoi ateb anuniongred, sef mynnu bod cymydog yn cynnwys publicanod, pechaduriaid a chenedl-ddynion, yna fe fyddai'r Cyfreithiwr a phawb arall yn ei weld fel gau-broffwyd peryglus.

Felly, osgoi rhoi diffiniad uniongyrchol wnaeth Iesu. Ac mae'n mynd ymlaen i adrodd dameg y Samariad Trugarog a gorfodi'r Cyfreithiwr i benderfynu drosto fe'i hunan pwy yn y stori yw'r gwir 'gymydog'.

Pwy mewn gwirionedd yw ein cymydog?

Yn ein bywyd cyfoes ni mae'r cwestiwn hwn yn parhau.

Gadewch i ni feddwl am Bailey Sloane o'r Barri. Pwy yw Bailey? Crwt oed ysgol gynradd o'r Barri oedd e pan ddaeth i amlygrwydd cenedlaethol. Person sydd ar y sbectrwm awtistig yw e ac mae hefyd ganddo'r cyflwr ADHD. Penderfynwyd pan oedd yn ifanc iawn nad oedd modd iddo fynychu ysgol. Roedd angen ei addysgu adref er ei les e ac er lles cymuned yr ysgol – fedrai'r naill na'r llall ymdopi tra'i fod e yn yr ysgol.

Fel gwyddom ni gyd bellach mae awtistiaeth yn ei gwneud yn anodd iawn i berson uniaethu gydag eraill. Roedd ei fam, Lisa Harrhy, yn awyddus iawn i'w helpu i ddysgu empathi a phwysigrwydd medru rhannu teimladau pobl eraill. O dderbyn ei addysg ar wahân i blant eraill byddai hyn yn llai tebygol o ddatblygu'n naturiol. Fel y gwyddom ni gyd o fyw ein bywydau mae empathi mor ofnadwy o bwysig. Hebddo rydyn ni'n corddi'r dyfroedd heb sylweddoli'r hyn rydyn ni'n ei wneud, rydyn ni'n achosi loes i eraill yn anfwriadol a gwneud bywyd yn anodd i bawb. O fedru bod yn empathetig gallwn addasu'r ymateb rydyn ni'n ei roi i eraill a gallwn ddeall sut y gallan nhw ddehongli'n hymatebion ni.

Beth wnaeth Bailey a Lisa felly? Penderfynodd Bailey ei hun y byddai'n cyflawni 100 o weithredoedd caredig. Roedd yn coginio cacennau bach a'u dosbarthu am ddim yn nhref Y Barri i'r sawl gerddai heibio. Byddai'n gadael i eraill fynd i'r ciw o'i flaen. Yn garedig iawn fe adawodd siocled ar y blwch llythyrau ar gyfer y postmon!

Gyrrodd cardiau ‘Diolch’ i’r heddlu a’r dynion tân yn y Barri i gydnabod eu gwaith pwysig – y bobl hynny rydyn ni mor barod i’w cymryd yn ganiataol. Treuliodd ddwy awr yn casglu sbwriel ar draeth Ynys y Barri. Wrth fynd i’r ‘drive through’ talodd am fwyd y car oedd yn ei ddilyn yn ogystal ag am ei fwyd ei hun. Allwch chi ddychmygu eu syndod a’u pleser nhw? Bu’n tacluso’r troliau yn yr archfarchnad. Yna efallai’r gweithredoedd symlaf ond mwyaf grymus; gweithredoedd mor hawdd eu cyflawni ond efallai sydd wedi mynd ‘allan o ffasiwn’ erbyn hyn. Byddai’n codi ei law ar ei gymdogion ac yna’n gwenu ar bobl.

Daeth HTV yn ymwybodol o’i weithredoedd caredig ac wrth gwrs roedden nhw wrth eu bodd i gael stori newyddion da i’w rhannu. Gwahoddwyd Bailey i ymddangos ar raglen Good Morning Britain hyd yn oed! Yn 2016 enillodd wobr ‘dinesydd y flwyddyn’ gan Glwb y Rotari Prydain fawr. Yn 2017 enillodd Wobr Ieuenctid Maer y Barri am ei gyfraniad ardderchog i bobl a thref y Barri. Mae hefyd wedi codi £500 i elusen.

(Lluniau Bailey oddi ar wefan ITVX)

Gallech ddweud mai caredigrwydd disgwyliedig oedd caredigrwydd Bailey. Ond tybed? Ceisio dysgu Bailey am bwysigrwydd uniaethu ag eraill oedd nod ei fam ac fel y gwelwn rhoddodd hynny lawenydd i Bailey hefyd. Dysgodd Lisa garedigrwydd a thrugaredd iddo, a bydd y gwersi hynny’n ei helpu yn ei fywyd ei hun yn sicr, ond bydd hefyd yn gwella diwrnod a hwyliau’r sawl ddaw i gyswllt ag e.

Rhywbeth pwysig i ni gyd ei gofio. Dydy gwên yn costi dim ond gall fod y rhodd fwyaf gwerthfawr i rywun heddiw. Pwy yw ein cymydog?

Dewch i ni droi nôl at y ddameg ei hun, ac fe welwn fod ynddi wers hawdd ei cholli am ei bod wedi’i chuddio mewn rhyw fath o jôc. Yn union fel yn y jôc glasurol sy’n seiliedig ar Gymro, Sais a Gwyddel .. felly hefyd ym Mhalestina mor bell yn ôl â’r ganrif gyntaf. Eu harfer nhw oedd enwi Offeiriad, Lefiad ac Israeliad, a byddai’r Israeliad yn lleygwr, nid yn swyddog pwysig yn yr Eglwys fel y ddau arall. Byddai gwrandawyr gwreiddiol y ddameg hon wedi disgwyl i’r trydydd teithiwr fod yn ‘Israeliad’, h.y. yn lleygwr Iddewig fel nhw eu hunain. Rhywun y bydden nhw’n medru uniaethu ag e - person oedd yn eu cynrychioli nhw. Maen nhw’n edrych ymlaen at allu eu canmol eu hunain ar ddiwedd y stori a gallu ymhyfrydu yn rhagrith y bobl grefyddol hyn a oedd mor aml yn destun dirmyg.

Ond na! Samariad ddewisodd Iesu, ac ef yw’r un sy’n aros ac yn rhoi sylw i’r teithiwr truenus. I’r Iddew doedd dim yn waeth na Samariad. Roedd ganddyn nhw gasineb pur at y Samariaid ac roedden nhw’n eu hystyried yn genedl ysgymun. Yr amarch mwyaf y gallai Iddew ei ddangos at berson arall oedd ei alw’n Samariad. Yn Ioan pennod 8 adnod 48 mae rhai Iddewon yn ceisio dwyn anfri ar Iesu drwy ddweud “*Y Samariad ddiawl! Mae cythraul ynot ti!*” Fydden nhw byth am ystyried neb yn ‘gymydog’ ond cyd-Iddew - er i’r Offeiriad a’r Lefiad fethu ymddwyn yn gymdogol a hynny at gyd-Iddew.

Yr hyn mae Iesu yn ei wneud yn y ddameg hon yw dangos bod cariad Duw yn cwmpasu pawb o bob hil a chenedl. Dangosa felly nad oes modd gosod ffiniau i’r gymdogaeth dda sy’n deillio o weithredu cariad Duw at gyd-ddyn. Pwyslais newydd, gwreiddiol oedd hwn yn nysgeidiaeth foesol y byd. Dros y canrifoedd pennwyd llinellau terfyn rhwng cenhedloedd, hiliau ac ieithoedd, llwythau a chrefyddau. Ond mae’r efengyl yn goresgyn y ffiniau. Ydy ffiniau felly yn peidio â bod? Fedrwn ni ddim gwadu bodolaeth ffiniau o fewn dynoliaeth. Twpdra fyddai ceisio gwneud hynny. Galluoga gariad Crist i ni anwybyddu pob ffin a gweld a derbyn ein gilydd, nid fel gelynion, na bygythion, na rhai israddol i ni, ond fel brodyr a chwiorydd o fewn yr un teulu dynol. Dyma athroniaeth sy’n herio rhagfarnau hiliol, gelyniaeth wleidyddol a rhaniadau crefyddol ac enwadol.

Neges ganolog Dameg y Samariad Trugarog yw nad oes lle i ffiniau na therfynau ar ein dealltwriaeth o bwy yw ein cymydog, beth yw ystyr cariad, a beth yw natur gwir grefydd.

Mae Iesu’n rhoi’r ystyr ehangaf posibl ar y tri gair allweddol - cymydog, cariad, crefydd.

Cymydog

Cafodd y Cyfreithiwr ei orfodi i gydnabod mai cymydog yw’r sawl sy’n gwneud ei orau i helpu ei gyd-ddyn, heb ystyried hil, cenedl, iaith na chrefydd. Er nad oes gan y Cyfreithiwr unrhyw awydd o gwbl i dderbyn Samariad fel cymydog all e ddim osgoi’r ystyr eang hollgynhwysol mae Iesu wedi ei roi i’r gair. Yn yr un modd ni ddylai Cristion chwaith osod amodau ar estyn cymorth i’r anghenus. Nid ein lle ni yw holi a yw

rhywun yn deilwng o dderbyn cymorth. Chawn ni ddim ystyried pa grefydd mae'n ei ddilyn nac i ba genedl mae'n perthyn. Mae mor hawdd i ragfarn, difrawder, calongaledwch a phrysurdeb gyda mân bethau dibwys achosi i ni esgeuluso anghenion cymydog, pwy bynnag y bo.

Cariad

Er nad yw Iesu'n defnyddio'r gair 'cariad' yn y ddameg mae'n dangos i ni beth yw cariad yn ei hanfod. Nid teimlad ac emosiwn ydyw. O gofio'r elyniaeth oedd yn bodoli rhwng yr Iddewon a'r Samariaid, go brin y byddai'r Iddew oedd ar lawr a'r cymydog o Samariad yn 'hoffi' ei gilydd. Serch hynny, roedd y Samariad yn fodlon ymateb yn ymarferol i angen cyd-ddyn - Iddew neu beidio. 'Dyw tosturi a chydymdeimlad ddim yn ddigon ar eu pen eu hun; - gwir gariad yw ymateb yn ymarferol i bob un sydd angen cymorth a nawdd. Geiriau olaf Iesu wrth adrodd y ddameg yw: "Dos dithau a gwna'r un fath."

Crefydd

Mae'r Offeiriad a'r Lefiad yn cynrychioli'r grefydd Iddewig. Ar eu ffordd adref ar ôl cyflawni eu dyletswyddau yn y deml maen nhw, ac fe fydden nhw'n eu halogi eu hunain pe baent yn cyffwrdd â chorff marw. Canlyniad hynny fyddai methu cynnal gwasanaeth crefyddol am ddyddiau. Doedd dim sicrwydd bod y truan ar lawr wedi marw, ond gwell oedd ganddynt gadw at reolau'r gyfraith Iddewig na mentro - rhag ofn. Roedd rheolau eu crefydd yn eu hatal rhag helpu'r cyd-ddyn ar lawr. I Iesu roedd crefydd o'r fath yn gwbl groes i **wir** ysbryd y Gyfraith.

Hanfod **gwir** grefydd yw brawdgarwch, cymwynasgarwch, gwasanaeth a chymorth i gyd-ddyn.

A dyna'r her i ni heddiw, ar Sul y gorfoleddu a'r dathlu, Sul y Blodau. Brawdgarwch; cymwynasgarwch; gwasanaethu cyd-ddyn – pwy bynnag y bo. "Dos dithau, a gwna'r un fath."

Er mor faith y sylwadau uchod, fedra i mo'u gadael heb gynnwys cerdd Waldo am frawdoliaeth. Gyda diolch o'r mwyaf i'r holl ardalwyr gyfrannodd at y gwasanaeth ac i Elfed ap Nefydd Roberts am ei ddoethineb craff.

Brawdgarwch (Waldo)

Mae rhwydwaith dirgel Duw
Yn cydio pob dyn byw;
Cymod a chyflawn we
Myfi, Tydi, Efe.
Mae'n gwerthoedd ynddo'n gudd,
Ei dyndra ydyw'n ffydd;
Mae'r hwn fo'n gaeth, yn rhydd.

Mae'r hen frawdgarwch syml
Tu hwnt i ffiniau'r deml.
Â'r Lefiad heibio i'r fan,
Plyg y Samariatan.
Myfi, Tydi, ynghyd
Er holl raniadau'r byd
Efe'n cyfannu'i fyd.

Mae Cariad yn dreftâd
Tu hwnt i ryddid Gwlad.
Cymerth yr Iesu ran
Yng ngwledd y Publican.
Mae concwest wych nas gwêl
Y Pharaseiaidd sêl.
Henffych y dydd y dêl.

Mae teyrnas gref, a'i rhaith
Yw cydymdeimlad maith.
Cymod a chyflawn we
Myfi, Tydi, Efe,
A'n cyfyd uwch y cnawd.
Pa werth na thry yn wawd
Pan laddo dyn ei frawd?



A dyma aelodau Gorllewin Caerdydd fu'n cymryd rhan yn oedfa Sul y Blodau, wedi ei threfnu gan Marged Cartwright.

Y Cwrdd Merched **Carol Davies**

Taith drwy Bontypridd

Buodd merched y capel yn ffodus iawn o gael cwmni Wil Morus Jones o Bontypridd yng nghyfarfod ola'r tymor ar Fawrth y 12fed. Ar ôl i Marian Evans a Rhian Huws ein harwain mewn darlleniad a gweddi, y ddau ddarn yn berthnasol iawn i'r adeg 'ma o'r flwyddyn, cyflwynodd Eirlys Lamb y siaradwr gwadd i ni. Wrth gwrs, doedd dim angen i Eirlys sôn gormod am ei hen ffrind gan fod cymaint yn gyfarwydd iawn â Wil. Brodor o Drefor yn wreiddiol - yn hanesydd, yn gerddor ac yn Gymro i'r carn. Bydd llawer yn ei gofio fel cyn bennaeth Ysgol Evan James, Pontypridd, ac fel sylfaenydd ac arweinydd ysbrydoledig Côr Godre'r Garth am nifer fawr o flynyddoedd.

Yn addas iawn, wrth ystyried bod golygon bron pawb nawr yn troi tuag at safle Eisteddfod Genedlaethol 2024, testun sgwrs Wil oedd "Pontypridd". Dyna'r dre lle mae wedi byw ers blynyddoedd erbyn hyn ac yn ei arddull ddifyr a huawdl, fe aeth â ni ar daith trwy bytie o hanes, storie a llunie i sawl lle o bwys hanesyddol yn ardal yr Eisteddfod eleni. Gan ddechre wrth sôn am bont enwog William Edwards, aeth ymlaen i sôn am y gamlas enwog a adeiladwyd ym 1792 ac a fu mor bwysig i hybu diwydianne trwm o Ferthyr i Gaerdydd, yna draw i dafarn enwog Llanofer fu'n ganolfan i griw o ddynion diwylliedig oedd mor frwd o ran eu Cymreictod yn y cyfnod, sef yr Iforiaid. Yna, mlaen i'r comin uwchben Pontypridd ac at y meini hynafol Eisteddfodol fan'na a hanes Dr William Price ac yna gorffen ym Mharc Ynysangharad yn ymyl y gofeb arbennig iawn i Evan James a James James. Fe "gerddon" ni i gyd filltiroedd yng nghwmni Wil wrth ddod i nabod yr ardal, heb godi o'n seddi o gwbwl!

Fe fydd Wil yn traddodi darlith ar Dr William Price ym Mhabell y Cymdeithasau, yn yr Eisteddfod ym mis Awst ac fe fydd honno'n ddarlith hynod o ddiddorol fydd yn werth ei chlywed gan fod Wil â chymaint o ddawn adrodd storie!

Yn ôl pob sôn, fe ddwedodd William Edwards, cynllunydd y bont enwog a oedd hefyd yn weinidog ifanc iawn ar y pryd, ei fod yn gobeithio'i fod wedi llwyddo i adeiladu dwy bont - un bont o un ochor o'r afon i'r llall a phont arall o'r nefoedd i'r ddaear. Gobeithio, ym mis Awst, y bydd yr Eisteddfod yng nghanol Pontypridd yn gallu bod yn bont unwaith eto i ddod â phawb at ei gilydd, trigolion a busnesau ardal Rhondda Cynon Taf ac ymwelwyr o bob rhan o Gymru - yn Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr.

Roedden ni'n falch iawn o allu cyflwyno cyfraniad o £155 oddi wrth y merched tuag at gronfa'r Eisteddfod fel ffordd o ddiolch i Wil am ein diddanu ac am agor ein llygaid i gyfoeth y dre bwysig a hanesyddol fydd yn fwrlwm o Gymreictod ym mis Awst.

... a dyma rai o aelodau'r Cwrdd Merched fu'n mwynhau pryd o fwyd yn Radur.

Rhodri, Berry a'r Barrug!

Rhodri-Gwynn Jones

Yn hollol ar hap, mae Wicipedia yn anfon neges i fy ffôn lôn i, yn crybwyll rhyw ddigwyddiad, hanesyn, neu gyhoeddiad a allai ennyn ddiddordeb. Y diwrnod o'r blaen ymddangosodd y llun isod - clawr cyhoeddiad o waith y Parchedig R G Berry, un o gyn-weinidogion Bethlehem, Gwaelod-y-garth – sef *"Noson o Farrug"*, drama fer mewn un act.



Perfformiwyd y ddrama am y tro cyntaf yng Nghapel Annibynwyr Gwaelod-y-garth ar y 1af o Ionawr 1915. ('Roedd yn gyfnod cythryblus a Phrydain yn ymladd yr Almaen a'i chynghreiriaid yn y Rhyfel Byd Cyntaf ers y 4ydd o Awst 1914.)

[Fe'i cyfieithwyd i'r Llydaweg ym 1928 gan Geraint Dyfnallt Owen ac Yann-Vari Perrot o dan y teitl *Eun nozveziad reo gwenn.]*

A do fe gefais fy ysgogi i wybod mwy!

Y "plot" i ddechrau:-

"Mae'n ymwneud a'r perthynas rhwng tad, mam a chwaer a'u mab / brawd afradlon a oedd newydd ddychwelyd adref ar ôl gadael cartref dan gwmwl blynyddoedd ynghynt.

Lleolir y ddrama mewn cegin ffermdy bychan. Mae'r stori yn cychwyn yn hwyr ar nos Sadwrn gaeafol, gyda golygfa sy'n dangos Elin Huws a Jane yn paratoi at fynd i'r gwely. Mae Elin tua 70 mlwydd oed ac yn wannaidd iawn ei hiechyd. Mae'n siarad mewn llais cwynfanus, fel un wedi hir ddioddef cystudd. Mae Jane tua 40 mlwydd oed, ac yn tueddu i fod yn oer a chaled ei natur. Mae profiad y blynyddoedd wedi ei suro i fesur. Mae Elin yn dweud wrth Jane ei bod wedi breuddwydio am ei mab, Dic, yn dychwelyd adref. Cafodd Dic ei droi allan o'r cartref teuluol gan ei dad rhyw pum mlynedd ynghynt am ryw bechod neu dramgwydd (sy ddim yn cael ei ddatgelu) gyda rhybudd i beidio dychwelyd. Mae William Huws, y tad wedi rhoi siars i'w gwraig a'i ferch i beidio crybwyll enw'r bachgen eto. Mae Jane yn tueddu cytuno efo barn ei thad am ei brawd ac yn methu deall pam fod gan Elin teimladau annwyl a hiraethus amdano o hyd.

Mae'r tad yn dod i mewn ac yn rhoi siars i Jane i ddarfod y gwaith ysmwthio dillad y mae hi'n gwneud, gan ei fod yn agosáu at ddechrau'r Sul, ac fel gŵr hynod grefyddol mae o'n gwrthwynebu pobl yn torri'r Sabath trwy weithio. Yn ôl arfer crefyddwyr y cyfnod mae Mr Huws yn darllen pennod o'r Beibl i'w teulu cyn iddynt noswylio. Wedi bod yn breuddwydio a meddwl am Dic (yn ddiarwybod i'w gŵr) mae Elin yn gofyn iddo ddarllen Dameg y Mab Afradlon. Wrth i'r ysgrythur cael ei ddarllen clywir cnoc ar y drws. Wrth ateb y curiad ar y drws mae Jane yn canfod Dic ei brawd yn sefyll yno. Mae Elin yn cyffroi am ddychweliad y mab ac mae hi'n adrodd y "geiriau o groeso" o stori'r Mab Afradlon: "Fy mab hwn oedd farw ac a aeth yn fyw drachefn, efe a gollesid ac a gaed." -Mae'r tad yn gwylltio efo hi am halogi'r ysgrythur trwy ddefnyddio ei eiriau am un mor ffiaidd â Dic. Er gwrthod rhoi croeso na faddeuant i'w mab mae William yn caniatáu Dic i aros yn y cartref hyd y peth cyntaf bore Llun. Nid cariad neu ddyletswydd sydd yn gyfrifol am ganiatâi i Dic aros, ond am nad yw Mr Huws am gweld y Sabath yn cael ei dorri yn ei gartref, trwy i rywun cychwyn siwrnai o'r tŷ ar y Sul. Mae'r tad, y mam a'r ferch yn mynd i fyny'r grisiau i'w gwlâu gan adael Dic i gysgu ar y soffa.

Wedi methu cysgu gan euogrwydd am y modd y bu'n trin ei fab, mae William yn codi yng nghanol nos ac yn mynd i lawr grisiau gyda blancedi i wneud Dic yn gysurus ar y soffa. Mae'n canfod nad yw Dic yno. Mae'n rhedeg i'r drws i weiddi am ei fab, heb gael ateb. Mae'r stŵr yn achosi Jane i godi hefyd. Mae William yn mynd allan o'r tŷ i chwilio am Dic, Wedi dychwelyd i'r tŷ mae'n dweud wrth Jane ei fod wedi darganfod corff Dic, wedi marw o oerni yn y berllan. Mae'r stori yn diweddu gyda William yn beio ei hun am achosi marwolaeth ei unig fab trwy ystyfnigrwydd a methu maddau."

Cyfeiriwyd at adolygiad [yn orgraff y cyfnod] o'r perfformiad yn Y Cymro, rhifyn y 27ain o Ionawr 1915, gan Y Parch O. T. Davies Llanfyllin, a dyna greu mwy o chwilfrydedd:-

"*Pan aethum am Saboth i'm bro genedigol yn ddiweddar nid oedd edrych am ddramodau Cymreig ar y programme. Pan gyrhaeddais Gaerdydd daeth i'm clyw fod tair drama gan wŷr enwog o Forgannwg i gael eu chwarae ar y nos Wener cyntaf o'r flwyddyn, ac aethum i gapel yr Annibynwyr i Waelodygarth i sbio beth a welwn a gwrando beth a glywn. Nid oes eisiau dweud lle mae'r Gwaelod? Ar lethr y Mynydd cribog uchaf yn Morgannwg, tua chwe milltir o Gaerdydd, saif y pentref bychan sydd yn gyrchfan pobloedd lawer yn herwydd medr amryw o'r aelodau i ddynwared, ond yn bennaf yn herwydd gallu rhywrai yno fedrant gyfansoddi pethau gwerth eu dynwared. Y ddau ŵr sydd yn beirianwyr i'r pethau hyn ydynt gweinidog y lle, y Parchedig R G Berry, enwog ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol, a Mri. John ac E J Phillips, brodyr i Proffeswr Phillips o Goleg Caerdydd. Hwynt-hwy feallai sydd yn gyfrifol am yr "awyrgylch" wna chwarae y dramodau hyn yn festri y capel yn bosibl. Nid oes amheuaeth nad oes i'r ddrama ei chenhadaeth bwysig i'r oes hon yng Nghymru, ond heb geisio peri teimlad i neb tarawyd fi a'r ymdeimlad nad doeth oedd codi allor iddi y tu fewn i furiau'r eglwys. Os yw hi i fyw rhaid iddi fyw mewn teml wedi ei wneud iddi ei hun gan adael i breswylfeydd y Goruchaf i fod yn gartre duwolion ac yn fangre y saint. Mae'n debyg mai diffyg adeilad cymwys yn yr ardal fu'n achos troi i mewn i Sion, Ond yn Sion y mae y Ddrama fel dagon yn nhŷ Dduw, a rhaid ddyfod o'r fan honno os yw i gael byw o gwbl. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y gwir a'r gau. Preswylfa gwirionedd yw'r eglwys, a pherthyn i'r "byd" y mae pob chwedl a ffug, a theml yn y "byd" ac i amcanion secular sydd raid iddi onite trengi wna o farwolaeth nid feallai y Cyfiawn, ond o farwolaeth gyfiawn. Maddeued y darllenydd i mi am droi oddi ar y llwybr.*

Yn awr at y dramodau. Hyd y gwn nid ydys eto wedi eu cyhoeddi er eu bod eisoes yn llaw yr argraffwyr.

Awdwr y 1af oedd y Parch. R G Berry, ac enw y ddrama oedd "Noson o Farrug". Gwelais un tro lyfr yn dwyn y teitl "Cymorth i chwerthin". Cymorth i lefain oedd y ddrama hon. Ar hyd llinellau y mab afradlon yr oedd yn rhedeg, ac yn dryfrith ynddi yr oedd llawer iawn o ddelweddau y bywyd Cymreig. Yn hyn y mae ei gwerth. Y mae'r ffeithiau yn "true to nature," chwedl Will Bryan, ac y mae yn cyffwrdd a chalon y Cymro yn herwydd hynny. Ond pe buasai y ddrama hon yn cael ei chwarae yn Seisneg ni fuasai fawr o lewyrch arni. Pe darllenasid y ddrama mewn cold print,' nid oedd ynddi fawr o ddim i dynnu deigryn, ond pan yn cael ei chwarae gan wŷr celfyddydol o alluoedd uwchraddol yn y gelf y mae yn dod, yn beth byw, trydanol, ac y mae dagrau'n felys, y mae wylo'n hyfryd."

Chwaraewyd rhan y tad gan John Phillips yn gampus – yr oedd pob symudiad a phob gair a phob difrifwch yn peri i'r gwrandawyr weled ynddo dalent neilltuol iawn at y gwaith. Gwelais Irving [Henry?] lawer gwaith, gwelais hefyd ddynion eraill o dalent eithriadol yn chwarae ar lwyfannau yn Llundain o bryd i bryd, ond fy marn ostyngedig i yw nad oes posibl disgwyl gwell nag a gafwyd gan y chwaraewr medrus hwn. Yr oedd Dick y bachgen afradlon yn wir dda. Am chwiorydd nid oedd llawer o finish ar eu chwarae – braidd yn strained o ran llais, a disgwyl gormod o effaith o eiriau a rhy ychydig oddi wrth symudiadau, awgrymant fwy na geiriau yn aml. Os goddef yr awdur talentog awgrym, yr oedd y diwedd yn rhy "sad". Gwell fuasai dod a Dick i mewn mewn llewyg a rhoddi gorffeniad llawen i'r darn na'n gadael mewn tristwch llethol. Y mae llawn digon o ddagrau mewn bywyd heb ychwanegu atynt, a buasai maddeuant y tad a llawenydd digymysg y fam yn esmwythâd gwerthfawr ac yn ad-daliad am yr xxx. Ond ar wahân i hyn y mae yn waith pur gelfydd, yn grefyddol ac yn ddifrifol, ac yn lun o'r darnau hynny rydd le campus i'r chwaeaewr. Yn ddiau ceir ei weled a'i glywed eto ar hyd a lled ein gwlad. Os oes ar ryw le eisiau darn i ddechreu arno, darn i beri fod y Philistiaid yn yr eglwysi yn rhoddi derbyniad ffafriol ar y cychwyn, ni ellir yn well na chwarae'r darn toddedig hwn. Y mae'r elfen orchfygol ynddo. Mae'r teimladau wrth ei wrando yn myned yn ddrylliau, ac y mae yn hawddach ennill y rhannau eraill o "gyfansoddiad y Cymry wedi ennill eu teimlad."

[Enw yr ail ddrama yw "William". Darn go ddigri ydyw. Yr awdwr yw Mr John Phillips, ac mae i'w longyfarch ar ymgais go bwysig i gadw hen idioms y Fro rhag myned ar ddifancoll.

Am y ddrama olaf, "Y Ferch-yng-nghyfraith", nis oedd yn glod o gwbl i'r awdwr na'r chwaraewyr. Trueni oedd gwastraffu amser i osod peth mor ddiflas o flaen y cyhoedd.]

(parhad ar y dudalen nesaf)

Fe fydd llawer ohonoch yn cofio i “Noson o Farrug” fod yn un o’r tair drama a gyflwynwyd yn y Festri yn 1995 (Chwefror 15 – 17), fel rhan o Wyl i nodi 50 mlynedd ers marwolaeth R G Berry. Dan gyfarwyddyd Rhys Powys, yr actorion (bryd hynny) oedd Esyllt Davies, Ffion Harris, Iolo Evans, Bethan Clement a Rwth Ellis Owen.

Y ddwy ddrama arall a gyflwynwyd oedd "Yr Hen Anian” (chwith) a “Dwywaith yn blentyn”. A dyna bnawn arall o’m bywyd wedi mynd i’r gwynt – diolch Wicipedia! ***[RhGJ]***

Ac yn olaf, am y tro...

GWEDDI'R PASG

*Y Parchedig **Denzil Ieuan John**, cyn-weinidog Y Tabernacl, Yr Ais, a Chadeirydd Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, oedd awdur gweddi'r Pasg ddosbarthwyd eleni gan CYNNAL, y gwasanaeth cwnsela sydd ar gael ar draws Cymru i'r holl glerigion, gweinidogion yr efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd. Rydyn ni'n deall gan Wynford Ellis Owen, Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol i Cynnal, fod y gwasanaeth bellach wedi ehangu i gyrraedd gogledd, dwyrain, gorllewin a chanolbarth Cymru, felly'n gweithredu ar lefel genedlaethol.*

Arglwydd yr holl fyd a Duw pob daioni, plygwn ger dy fron gan ymbil am arweiniad wrth i ni glosio at y Pasg eleni. Ti yw ffynhonnell cariad a thrugaredd, ac yr ydym yn ymwybodol o drasiedi'r ddynoliaeth.

Gweddïwn dros lywodraethau'r byd y Pasg hwn, wrth i ni gofio bod ystyriaethau gwleidyddol wedi chwarae eu rhan yng ngweithredoedd y swyddogion Iddewig ac angen Peilat a'r Ymerodraeth Rufeinig i gadw trefn â dwrn haearn.

Yr ydym yn dystion i'r rhyfeloedd erchyll yn yr Wcráin a Gaza yn benodol, ond gwyddom bod dinasyddion sawl gwlad yn crynu mewn ofn oherwydd fod tensiynau rhyfel yn eu plith.

Dduw Shalom, arwain ni eto tuag at heddwch.

Cofiwn am Iesu fel un a welodd gri yr anghenus yn y byd, yr unig a'r llesg, y cloff a'r digartref, y cleifion a'r truenus. Heddiw, gweddïwn hefyd dros y sawl sy'n gaeth i sylweddau ac arferion dinistriol o bob math. Boed iddynt estyn atat a phrofi grym dy gariad a'r gobaith o fywyd newydd sydd yn Iesu.

Gweddïwn dros bobloedd y byd, y rhai nad ydynt yn gwybod am wyrth y Pasg –

am wawr Iesu'r atgyfodiad
am drugaredd ei gyffyrddiad
a'r bywyd newydd ddaw o dderbyn ei fendith.

Ti, Ysbryd sy'n argyhoeddi, clyw ein gweddi dros genhadaeth yr Eglwys. Arglwydd, trugarha wrthym fel unigolion, cynorthwya ni i ddyfnhau ein ffydd a bod yn fwy taer yn ein tystiolaeth drosot. Amen.

Cofiwch! Bydd ymarferion cyn hir ar gyfer ail-berfformio'r "Gwynfydau" yn Minny Street, Bnawn Sul Mehefin 30 am 5.00 y pnawn.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn o

Gair Bach Bethlehem

yn lluniau a geiriau.

A diolch i chi am ei ddarllen!

(Fe ddaeth cymaint o gyfraniadau i law, rydyn ni wedi cadw dyrnaid bach wrth gefn ar gyfer yr Haf!)

Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnn erbyn Mehefin 1af: *tycnau@aol.com*